



Llais i'r iaith

## DYFODOL I'R IAITH

YMATEB I GYNNIG LLYWODRAETH CYMRU

AR FIL Y GYMRAEG:

CEFNOGAETH I SEFYDLU CORFF HYD-BRAICH

---

A RESPONSE TO THE PROPOSAL BY THE WELSH GOVERNMENT ON THE WELSH LANGUAGE BILL:

SUPPORT FOR ESTABLISHING AN ARM'S-LENGTH BODY

Ionawr / January 2018

Cyswllt/ Contact:

Ruth Richards

Prif weithredwr / Chief executive

Dyfodol i'r iaith

[ruth@dyfodol.net](mailto:ruth@dyfodol.net)

## Cefnogaeth i sefydlu corff hyd braich

1 Pan gafodd Bwrdd yr Iaith ei ddileu, bu peth beirniadaeth arno, er iddo gyflawni tipyn ym maes cynllunio ieithyddol.

- Un feirniadaeth oedd ei ddiffyg o ran statws cyfreithiol: roedd siaradwyr Cymraeg yn brin o'r hawliau a ddaeth yn sgil y ddeddf iaith ddiwethaf.
- Beirniadaeth arall oedd diffyg adnoddau'r Bwrdd. Nid oedd gan y Bwrdd adnoddau ariannol a ddôi'n agos at yr hyn sydd ei angen yn y dasg fawr o adfer iaith.

2 Cafwyd cam sylweddol ymlaen pan wnaeth Mesur y Gymraeg 2011 y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae'n hollbwysig cadw hyn. Rhododd y Mesur swyddogaethau penodol i'r Comisiynydd Iaith, sef

- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
- Sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3 Yn y Mesur cafodd rheoleiddio'r Gymraeg a hyrwyddo'r iaith eu rhoi o dan yr un to. Wedi pum mlynedd o waith gan y Comisiynydd, gwelwyd bod y gosod y ddwy elfen hon yn anghymharus, a rhoddyd y prif bwyslais ar reoleiddio. Er pwysiced hyn, sefydlwyd system sy'n aml yn glo gyrnaidd ac yn orfiwrocrataidd. Un engraffit yw iddi gymryd 8 mis i âr o Abertawe gael datganiad gan y Comisiynydd yn nodi bod rhaid i swyddogion Cyngor Abertawe ateb e-byst Cymraeg yn y Gymraeg. Roedd y Cyngor wedi cydnabod bai un swyddog methiannus ar ôl rhai dyddiau.

4 Ond y methiant mwyaf oedd methu â rhoi yn ei lle raglen drylwyr i hyrwyddo'r Gymraeg. Gwnaed gwaith da gyda rhai sefydliadau masnachol. Ond roedd y gwaith gyda Chynghorau Lleol yn brin iawn o'r hyn sydd ei angen. Gwelwyd bylchau amlwg, yn enwedig ym maes addysg Gymraeg, yn gymunedol a gyda theuluoedd. Llanwyd rhai o'r bylchau wrth i Adran Gymraeg y Llywodraeth ymgymryd â threfnu hyrwyddo mewn sawl maes.

5 Bu dyblygu dyletswyddau ar brydiau: mae gan y Comisiynydd symbol a bathodynau i siaradwyr Cymraeg. Mae rhai gwahanol gan y Llywodraeth. Ni chafwyd gan y naill na'r llall ymgyrch eang, genedlaethol i hyrwyddo'r rhain.

## Support for establishing an arm's length body

1 When the Welsh Language Board was abolished, there had been some criticism of it, although it did accomplish much in the field of language planning.

- There was a criticism of its legal status deficit: Welsh speakers lacked the rights that came with the latest Welsh Language Measure.
- Another criticism was the Board's lack of resources. The Board did not have financial resources that came close to what is needed in the major task of language revitalisation.

2 There was a significant step forward when the Welsh Language Measure 2011 made Welsh an official language in Wales. It is imperative to keep this. The Measure gave specific functions to the Language Commissioner, namely

- Promoting Welsh
- Facilitating the use of Welsh
- Ensuring that Welsh is not treated less favourably than English.

3 In the Measure, regulating the Welsh language and promoting the language were placed under one roof. After five years of work by the Commissioner, it has been seen that collocating these two elements has difficulties, as the main emphasis was placed on regulation. On top of this, the system that has been established is at times cumbersome and over bureaucratic. One example is that it took 8 months for a Swansea man to have a statement from the Commissioner stating that Swansea Council officials have to answer Welsh language e-mails in Welsh. The Council had acknowledged the fault of one officer after some days.

4 But the biggest failure was not putting in place a thorough programme to promote the Welsh language. Good work has been done with some commercial organizations. But work with Local Councils was very short of what is needed. There were obvious gaps, especially in the field of Welsh-medium education, in the community and with families. Some of the gaps were filled when the Welsh Department of the Government undertook promotion of Welsh in several areas.

5 Duties have been duplicated at times: the Commissioner has a symbol and badges for Welsh speakers. The Government has used different ones. Neither had a wide national campaign to promote these.

6 Cafodd rhaglen Twf ei newid, gan golli brand adnabyddus. Ar y llaw arall, rhoddydwyd cyllid i gychwyn Canolfannau Cymraeg, a oedd yn gam beiddgar a chreadigol. Cam creadigol arall oedd sefydlu Canolfan Genedlaethol i drefnu dysgu'r Gymraeg i Oedolion.

7 Daeth yn bryd rhoi trefn ar y gwahanol feysydd gweithredu hyn. Er pwysiced yw rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg, nid yw hawliau defnyddio'r Gymraeg gyda chyrff cyhoeddus yn ganolog i sut mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd.

8 Mae cymdeithasegwyr iaith yn rhoi blaenoriaeth i drosglwyddo'r iaith yn y cartref, a hefyd i'r gymuned, ac i fyf addysg a gwaith. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd personol a rhyngbersonol, gan gynnwys adloniant, chwaraeon, siopa, byd caffi a thafarn, a defnydd digidol o'r iaith. Ni fydd modd mynd i'r afael â chymhlethdodau'r rhain heb gynllunio manwl ar lefel genedlaethol, gyda gweithredu'n digwydd yn lleol trwy gynghorau lleol, a gwahanol sefydliadau a chyrff. Ni ddylai hyn fod ar hap, nac yn fympwyol. Mae angen gwneud defnydd o'r dystiolaeth Gymreig a rhyngwladol fwyaf cyfoes ym maes seicoleg iaith, deall ymddygiad ieithyddol ac adfer iaith.

9 Mae hyn yn waith i Gorff penodol. I osgoi dryswch, bydden ni am alw'r corff yn Awdurdod Iaith yn hytrach nag yn Gomisiwn Iaith. Byddai gan y Corff hwn y dyletswyddau canlynol:

- i) Bydd yn meithrin arbenigedd mewn cynllunio iaith.
- ii) Bydd yn gorff parhaol a fydd yn gyfrifol am gyd-lunio polisiau iaith.
- iii) Bydd yn gyfrifol am wneud a chomisiynu ymchwil ar ddeall ymddygiad ieithyddol mewn gwlad ddwyieithog.
- iv) Bydd yn gyfrifol am raglen uchelgeisiol o weithredu ieithyddol ar sail ymchwil.
- v) Bydd yn blaenoriaethu gweithredu yn y meysydd mwyaf cynhyrchiol o ran hybu'r defnydd o'r Gymraeg.
- vi) Bydd mewn cyswllt agos â gwahanol adrannau'r Llywodraeth i sicrhau bod pob adran yn gweithredu tuag at yr un nodau.
- vii) Bydd yn cydlynu cynllunio iaith yng Nghymru, ar y cyd gyda'r Llywodraeth, llywodraeth leol a chyrff perthnasol eraill.
- viii) Bydd yn datblygu strategaeth ym myd busnes a thai, i hyrwyddo twf busnes mewn ardaloedd mwy Cymraeg a'r Gymraeg mewn busnes, ac i sicrhau llewyrch ardaloedd mwy Cymraeg.

6 The Twf programme was changed, losing a well-known brand. On the other hand, funding was given to start Canolfannau Cymraeg - Welsh Language Centres - which was a bold and creative step. Another creative step was the establishment of a National Centre to organize the teaching of Welsh for Adults.

7 The time has come to bring order to these different areas of activity. Although it is important is to give rights to Welsh speakers, the right to use Welsh with public bodies is not central to how most Welsh speakers use the language in their everyday lives.

8 Sociolinguists give priority to transmitting the language at home, to using it in the community, and in education and work. This includes the use of Welsh in personal and interpersonal life, including entertainment, sports, shopping, the world of cafés and pubs, and digital use of the language. These complicated areas cannot be addressed without detailed planning at a national level, with action taking place locally through local councils, and with different establishments and organizations. This should not be random, or arbitrary. The most contemporary Welsh and international evidence needs to be used, in the field of language psychology, understanding language behaviour and language revitalisation.

9 This is a work for a specific Body. To avoid confusion, we would like to call the body a Language Authority rather than a Language Commission. This Body would have the following duties:

- i) It will develop expertise in language planning.
- ii) It will be a permanent body responsible for coordinating language policies.
- iii) It will be responsible for undertaking and commissioning research on understanding linguistic behaviour in a bilingual country.
- iv) It will be responsible for an ambitious program of linguistic action based on research.
- v) It will prioritize action in the most productive areas of promoting the use of Welsh.
- vi) It will be in close contact with different Government departments to ensure that all departments act towards the same goals.
- vii) It will co-ordinate language planning in Wales, in conjunction with Government, local government and other relevant bodies
- viii) It will develop a business and housing strategy, to promote business growth in more Welsh speaking areas and Welsh in business, and to ensure the prosperity of more Welsh speaking areas.

10 Ni fydd mor agored i newidiadau staff ag yw system gweision sifil Ni fydd yn amrywio ei bolisi yn ôl newidiadau gwleidyddol, ond yn gweithredu ar sail egwyddorion a thystiolaeth gadarn. Bydd ar y Corff hwn angen staff ac adnoddau sylweddol er mwyn bod yn effeithiol, ond trwy gydlyn uymdrehchion ieithyddol mae hi hefyd yn bosibl gweld gwell gwerth am arian.

11 Mae hi'n werth edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill. Mewn gwledydd eraill, mae Comisiynydd Iaith, neu Ombudsman Iaith, yn gyfrifol am gynnal hawliau cyfreithiol unigolion, cynnal trefn o gylluniau iaith, ac ymchwilio i gwynion, yn hytrach nag am hyrwyddo'r iaith yn gyffredinol. Mae Cymru'n eithriad.

12 Rhagwelwn y bydd ar Gymru angen y math o drefniant gweinyddiaeth iaith a gafwyd yng Nghatalwnia a Gwlad y Basgiaid, lle mae prif adran iaith y llywodraethau'n gyfrifol am is-adrannau, rhai o fewn y llywodraeth a rhai'n sefydliadau hyd-braich.

13 Daw'n glir i ni fod angen i'r Comisiynydd Rheoleiddio ganolbwntio ar reoleiddio, gyda nifer cymesur o staff. Dylid trosglwyddo dyletswyddau sy'n ymwneud â hyrwyddo, cynghori, defnydd digidol o'r iaith, enwau lleoedd i'r Awdurdod newydd. Yr un pryd bydd angen trosglwyddo staff a rhoi adnoddau digonol at y gwaith.

14 Rydym yn rhagweld y bydd yr Awdurdod yn gefn i Adran Gymraeg y Llywodraeth, a fydd yn ganolog wrth annog datblygu polisiau rhyngadrannol. Byddant yn cyd-drefnu twf addysg Gymraeg a'r Gymraeg mewn addysg gyda'r Adran Addysg, ac yn sicrhau twf sefydliadau Cymraeg, yn ogystal â'r Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg, y Menterau Iaith, a mudiadau tebyg i'r Urdd, Mudiad Meithrin, Canolfannau Cymraeg ac eraill.

15 Edrychwn ymlaen at weld gweithredu ieithyddol yn digwydd yn Nghymru mewn modd cydlynus a gwybodus. Cam sylfaenol at hyn fydd sefydlu Awdurdod Iaith yn gorff hyd braich, yn gorff a fydd yn cydlynú'n agos â'r Llywodraeth ac yn rhoi arweiniad i holl gyrrf cyhoeddus Cymru, a hefyd i'r sectorau preifat a'r trydydd sector.

16 Rydym yn edrych ymlaen at gynorthwyo mewn unrhyw fodd wrth i'r Papur Gwyn ddod yn fil, a byddwn ar gael i helpu ac i gyd-drafod gydag Aelodau'r Cynulliad.

10 It will not be as open to staff changes as the civil servant system. It will not vary its policy according to political changes, but act on the basis of sound principles and evidence. This Body will require significant staff and resources to be effective, but by coordinating activities it is also possible to foresee better value for money.

11 It's worth looking at what's happening in other countries. In other countries, a Language Commissioner, or a Language Ombudsman, is responsible for maintaining the legal rights of individuals, maintaining a system of language schemes, and investigating complaints, rather than promoting the language in general. Wales is an exception.

12 We anticipate that Wales will need the type of language administration arrangement found in Catalonia and the Basque Country, where the main language department of the governments is responsible for several sub-sections, some within government and some being arm's-length organizations.

13 It becomes clear to us that the Regulatory Commissioner needs to focus on regulation, with a proportionate number of staff. Duties relating to the promotion, advice, digital use of the language, and place names should be transmitted to the new Authority. Adequate transfer of staff and resources will be needed.

14 We anticipate that the Authority will support the Government's Welsh Department, which will have a central role in encouraging the development of inter-departmental policies. They will co-ordinate the growth of Welsh-medium education and the Welsh language in education with the Education Department, and ensure the growth of Welsh establishments, as well as the National Centre for Learning Welsh, the Menterau Iaith, and similar organizations to the Urdd, Mudiad Meithrin, Canolfannau Cymraeg and others.

15 We look forward to seeing linguistic action taking place in Wales in a coherent and informed way. A fundamental step towards this will be the establishment of a Language Authority as an arm's length body, a body that will closely liaise with the Government and provide guidance to all public bodies in Wales, as well as to the private and third sectors.

16 We look forward to helping in any way as the White Paper becomes law, and we will be available to help and discuss these matters with Assembly Members.